

Gwybodaeth am Oedolion sy'n Agored i Niwed (POVA) i Staff



Os yw ymddygiad cydweithiwr neu aelod arall o staff yn gwneud i chi feddwl bod Oedolyn sy'n Agored i Niwed yn cael ei gam-drin neu ei esgeuluso -

- Peidiwch â diystyru'ch pryderon.
- Peidiwch â chyhuddo'r person dan sylw wyneb yn wyneb.
- Trafodwch y pryderon hyn â'ch Rheolwr Llinell neu'r tîm POVA.

Rhowch wybod ar unwaith i rywun a all gymryd camau cadarnhaol a sicrhau bod ymchwiliad priodol yn cael ei gynnal. Peidiwch â phoeni am wneud camgymeriad – mae'n well trafod eich pryderon â rhywun sydd â phrofiad a chyfrifoldeb i gynnal asesiad priodol a chymryd camau cadarnhaol.

Gallwch hefyd ddod o hyd i wybodaeth ar Wefan Cyngor Caerdydd www.caerdydd.gov.uk
I gael rhagor o wybodaeth neu i drafod unrhyw rai o'r pwyntiau ar y daflen hon, cysylltwch â:

Tîm Cymorth POVA
Ffôn: 029 2053 6436; neu'r
Tîm Dyletswydd Argyfwng
(y tu allan i oriau)
Ffôn: 029 2078 8570
Mae Oedolion sy'n Agored i Niwed yn

bobl (18 oed neu hŷn) y gallai fod angen gwasanaethau gofal cymunedol arnynt oherwydd anabledd meddyliol neu anabledd arall, oedran neu salwch, gan gynnwys y rheini nad ydynt yn gallu gofalu am eu hunain neu ddiogelu eu hunain rhag niwed neu ecsbloetiaeth.

Cyngor i bob aelod o staff

P'un a ydych yn gweithio'n uniongyrchol ag oedolion sy'n agored i niwed neu'n dod ar eu traws fel aelodau o'r cyhoedd, mae dyletswydd arnoch i roi gwybod am unrhyw achosion o gamdriniaeth neu esgeulustod.

Camdriniaeth yw gweithred sy'n mynd yn erbyn hawliau dynol a dinesig pobl gan unrhyw berson neu bersonau eraill

Gall camdriniaeth fod yn weithred sengl neu'n weithred a ailadroddir. Gall fod o natur:

- Corfforol
- Rhywiol
- Seicolegol
- Ariannol
- Esgeulustod

Mae'n bwysig iawn cofio'r canlynol:

Ni ddylech byth gymryd yn ganiataol y bydd rhywun arall yn sylwi ar achos ac yn

rhoi gwybod amdano pan fo oedolion sy'n agored i niwed mewn perygl.

Os oes rhywun yn dweud wrthy ch ei fod ef, neu oedolyn sy'n agored i niwed, yn cael ei gam-drin:

- Peidiwch ag addo cadw'r wybodaeth yn gyfrinachol oherwydd mae'n bosibl y bydd yn rhaid i chi ddweud wrth bobl sydd angen gwybod.
- Ceisiwch ei sicrhau y bydd y cyhuddiadau/atgyfeiriad yn cael eu cymryd o ddifrif
- Gwrandewch yn ofalus ac yn dosturiol a chofiwch ei bod yn bosibl y bydd angen unigolyn sy'n arbenigo mewn sgiliau cyfathrebu ar oedolyn ag anabledd dysgu/nam synhwyrdd.
- Os yw'r achos o gam-drin gyfystyr ag ymosodiad troseddol, dylid cysylltu â'r Heddlu a gwneud nodyn o unrhyw dystiolaeth ffisegol.
- Peidiwch â gofyn cwestiynau arweiniol i'r oedolyn sy'n agored i niwed am y cyhuddiad, ac osgowch gwestiynau ymwithiol.
- Nodwch yr hyn y mae'r oedolyn sy'n agored i niwed yn ei ddweud wrthy ch gan ddefnyddio ei union eiriau lle bo hynny'n bosibl.
- Peidio â chyhuddo'r camdriniwr honedig wyneb yn wyneb
- Rhowch wybod i'ch Rheolwr Llinell neu'r Tîm POVA ar unwaith

Os yw oedolyn sy'n agored i niwed wedi cael anaf corfforol ac angen cymorth meddygol brys, ceisiwch help drwy ffonio ambiwlans neu feddyg